**ARCHWILIO CYFRIFON 2020/21**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG**
**GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR**
**GWASANAETH CYDWEITHFA FABWYSIADU Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD**

Mae Rheoliad 10(1) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Bro Morgannwg, Cydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Mai 2021. [Llofnododd ac ardystiodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol gyfrifon Bro Morgannwg ar 30 Mehefin 2021, y Cyfrifon Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar 22 Mehefin 2021 a Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd ar 28 Mai 2021].

Mae Rheoliad 10(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeirir ato uchod, [Cyngor Bro Morgannwg, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Gwasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd gymeradwyo a chyhoeddi'r datganiad cyfrifon archwiliedig. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Gorffennaf 2021.

Oherwydd yr achosion o COVID-19, nid yw'r archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2020-21 wedi'i gwblhau eto ac nid oes barn archwilio wedi'i chynnig. Y datganiad cyfrifon a gyhoeddir yw'r datganiad cyfrifon nas archwiliwyd.

Dyddiedig 30 Gorffennaf 2021
Rob Thomas
Rheolwr Gyfarwyddwr
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU